| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **12 Rhagfyr 2022** |
| **TEITL** | **Rhagolygon Ysgolion** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

Darparwyd rhagolwg cyllidol 3 mlynedd i ysgolion ddechrau mis Rhagfyr 2022 ar sail cyfrifiad nifer disgyblion Medi 2022 -

| effaith demograffi | 2023/24 | | 2024/25 | | 2025/26 | | cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cynradd | -153 | -£135,500 | -248 | -£715,200 | -149 | -£350,000 | -550 | -£1,200,700 |
| uwchradd | +18 | +£49,200 | +69 | +£188,600 | +15 | +£52,600 | +102 | +£290,400 |
| arbennig | gwaith yn mynd rhagddo i adnabod cynnydd niferoedd a dwysedd disgyblion | | | | | | | |
| cyfanswm | -135 | -£86,300 | -179 | -£526,600 | -134 | -£297,400 | -448 | -£910,300 |

Mae'r ystadegau yn dangos niferoedd cynradd yn lleihau yn sgil disgyblion hŷn yn symud fyny i'r sector uwchradd, tra mae niferoedd sy'n cychwyn cynradd wedi/yn lleihau. Effaith niferoedd CA3 a CA4 ydi'r uwchradd uchod (bl7-bl11), gan bod 6ed dosbarth yn cael ei gyllido yn uniongyrchol trwy Grant Llywodraeth Cymru gyda niferoedd 6ed yn lleihau -10 Medi 2022, +80 Medi 2023 a -15 Medi 2024.

Felly dros y 3 mlynedd rhagwelir lleihad oddeutu £1.2miliwn o arian yn ein hysgolion cynradd - cyfwerth ac oeddeutu 22 yn llai o athrawon. Mae'r cynnydd yn y sector uwchradd cyfwerth â chynnydd oddeutu 5 athro. Pella i'r dyfodol mae'r ysgolion yn rhagweld niferoedd e.e. Medi 2024 anoddach ydi hi i ragweld y niferoedd yn gywir. Yn amlwg, mae gwahaniaethau o ysgol i ysgol o fewn y sectorau o ran cynnydd/lleihad niferoedd.

Tydi setliad y Cyngor na grantiau ysgolion am 2023/24 wedi'u cadarnhau hyd yma. Nid oes gwarant bod pob grant yn parhau nac yn cynyddu/lleihau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Yn sgil negeseuon am sefyllfa cyllidol y Cyngor mae'n anorfod bydd ysgolion yn wynebu toriad yn 2023/24 ac rydym yn modelu toriadau rhwng 1%-6%.

Argymhelliad
Derbyn y wybodaeth.